# Cynllunio prosiectau adfer morol ac arfordirol

## 1. Rhestr wirio prosiect adfer

Mae'r rhestr wirio hon yn eich helpu i weithio drwy'r hyn y mae angen ichi feddwl amdano wrth gynllunio'ch prosiect a gweithio gyda ni. Cewch wybodaeth fanylach yn yr adran gyfatebol yn ein canllaw GN033: Cynllunio prosiectau adfer morol ac arfordirol

## 2. Cael cyngor

Gallwch gysylltu â'n cynghorwyr am gymorth. Cyn gwneud hynny, bydd angen ichi wneud rhywfaint o ymchwil cwmpasu ac ymchwil gefndirol ar gyfer eich prosiect.

Dylech ddarllen ein canllawiau: GN033 Cynllunio prosiectau adfer morol ac arfordirol a gallu rhoi trosolwg byr inni o'ch prosiect:

- Beth yw nod eich prosiect a'i fanteision?
- Pa gynefin neu rywogaeth fyddwch chi'n ei (h)adfer?
- Ble mae'r safle?
- Sut fyddwch chi'n adfer eich cynefin neu'ch rhywogaeth?
- Pryd fydd y prosiect yn digwydd?
- Pwy fydd yn cyflawni'r prosiect?
- A yw eich safle mewn, neu'n agos at, unrhyw safle gwarchodedig?
- Pa weithgareddau a phwysau eraill a geir ar y safle?
- Pa ddata sylfaenol sydd gennych chi?
- Ydych chi wedi gwirio pa fathau o ganiatâd neu asesiadau y gallai fod arnoch eu hangen?

## 3. Datblygu eich prosiect

Wrth i'r prosiect ddatblygu bydd angen ichi gael gwybodaeth fanylach ynghylch ' **beth', 'ble', 'sut', 'pryd' a 'pham'** yn gysylltiedig â'ch prosiect.

Bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i ddatblygu cynllun prosiect cadarn a bydd yn cefnogi ceisiadau am unrhyw ganiatâd y gallai fod arnoch ei angen.

## 4. Asesiad safle

Bydd angen ichi gynnal asesiad manylach o'ch safle i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer eich prosiect adfer. Bydd angen ichi:

- Asesu’r amgylchedd ehangach yn fanylach i benderfynu a yw'r safle'n addas.
- Pennu pa weithgareddau a/neu bwysau sy'n digwydd yn yr ardal.
- Sicrhau bod yr asesiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol.

# 5. Oes angen unrhyw ganiatâd neu asesiadau arnoch chi?

Bydd angen ichi wirio pa fathau o ganiatâd neu asesiadau y gallai fod arnoch eu hangen ar gyfer eich prosiect.

## Gweithgareddau lle gellid bod angen caniatâd

- Gwiriwch a oes angen trwydded forol arnoch.
- Gwiriwch a oes angen caniatâd, trwyddedau neu gydsyniadau eraill arnoch.
- Gwiriwch a oes angen caniatâd gan y tirfeddianwr i gael mynediad at safle eich prosiect.

## Asesiadau ardaloedd gwarchodedig

Os ydych chi'n gweithio mewn, neu’n agos at, ardal warchodedig, efallai y bydd angen ichi baratoi gwybodaeth ar gyfer:

- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Asesiad cydymffurfiaeth Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFDR)

# 6. Cyflawni’r prosiect

Bydd angen ichi ddatblygu cynlluniau rheoli a monitro ar gyfer eich prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

- Bydd angen cynllun gweithredu prosiect arnoch chi.
- Bydd angen ichi feddwl am eich dulliau o gasglu a monitro data.

Bydd angen ichi hefyd ystyried y risgiau a allai effeithio ar eich prosiect a sut y byddwch chi'n eu rheoli neu'n eu lliniaru. Dylech ystyried:

- Risgiau bioddiogelwch.
- Trawsleoli rhywogaethau.
- Cynnal amrywiaeth genetig.
- Pwysau o weithgareddau eraill.
- Yr ecosystem ehangach.
- Effeithiau yn y dyfodol yn sgil y newid hinsawdd
- Sicrhau cefnogaeth y gymuned
- Materion cymdeithasol ac economaidd.
- Materion cyllido.